

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 26 Mehefin 28, 2018 50c.

Lansio Apêl Madagascar

Profiad a roddodd dipyn o wefr, oedd bod yn bresennol yn y cyfarfod, bore Gwener yr Undeb, ar gyfer lansio Apêl Madagascar. Wedi misoedd o drefnu a pharatoi, yn ogystal â chael y fraint o ymweld â'r ynys ar ran yr Undeb i gasglu storïau a delweddau, dyma ni o'r diwedd yn bwrw ati i gyflwyno 'Bywyd i Bawb', sef teitl swyddogol yr Apêl.



Teulu Duw

Roedd neuadd goffa Aberaeron yn llawn, nid yn unig o gynadleddwyr Undeb yr Annibynwyr, ond hefyd ffrindiau o enwadau eraill, cyn-genhadon, pobl oedd â chysylltiadau a'r ynys, ac wrth gwrs nifer dda o drigolion Madagascar oedd wedi dod draw yn arbennig i fod yn rhan o ddatliadau'r deucanmlwyddiant. Fel dywedodd Jeff Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Apêl, mae hon yn Apêl wahanol i'r arfer am fwy nag un rheswm. Yn sicr y mae'r ffaith ein bod ni wedi lansio'r Apêl gyda chymaint o bobl o'r wlad fydd yn derbyn ein cymorth yn bresennol, yn rhoi dimensiwn gwahanol iawn iddi, ac yn bwrw adref yn rymus y neges sylfaenol sydd wrth wraidd pob un o'n hapeliadau yn y gorffennol, sef mai un teulu ydym o bobl Dduw.

Syndod a rhyfeddod

Roedd cymaint ynglŷn â'r cyfarfod wedi gwneud argraff. Y Gymraeg a'r Falagseg yn cael eu defnyddio mor rhywydd ochr yn ochr, geiriau diffuant Pastor Ammi, llywydd FJKM, cael

cipolwg ar y ffilmiau a baratowyd mor gelfydd gan Rhodri Darcy, gweld rhai o'r deunyddiau a'r delweddau fydd yn dod mor gyfarwydd i ni yn ystod y flwyddyn, a phwy all anghofio'r floedd o syndod a rhyfeddod pan glywodd pobl Madagascar bod yr Undeb wedi paratoi fersiwn yn yr iaith Falagseg o *Hanes Madagascar* gan David Griffiths, un o'r cenhadon cyntaf, a bod copi yn cael ei roi i bob un ohonynt! Roeddem wedi clywed bod ambell 'syrpreis' i fod yn yr Undeb yma, ond doedd neb wedi dychmygu rhywbeth fel hyn. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd rhan, ond diolch arbennig i Elinor Wyn Reynolds am ei holl waith gyda'r llyfr, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg hefyd, a gydag adnoddau'r Apêl.

Adnoddau arbennig

Dros yr haf fe fydd pob eglwys yn derbyn pecyn yr Apêl yn cynnwys taflenni am y 4 prosiect, posteri, ffeithiau am Fagagascar, cerdyn gweddi, cardiau rysetiau yn defnyddio cynhwysion yr ynys, sticeri,



bunting a thafleuni yn rhoi cyfarwyddyd ar yr ochr ariannol. Hefyd mae yna DVD gyda 5 o ffilmiau, un am bob prosiect ac un yn adrodd stori'r cenhadon cyntaf. Gellir cael copïau o Dŷ John Penri.

Deunyddiau ychwanegol

Yn ystod y flwyddyn fe fydd deunyddiau ychwanegol yn ymddangos ar y we yn gyson, gan gychwyn gyda gwasanaeth arbennig i'ch helpu i lansio'r Apêl yn eich eglwys. Y bwriad yw ei wneud yn wasanaeth y gellid ei ddefnyddio adeg y cynhaeaf, ac fe fydd ar gael ddechrau mis Awst. Cofiwch hefyd bod mygiau, matiau diodydd a bagiau gyda logo'r Apêl, 'Bywyd i Bawb', ar gael o Dŷ John Penri, yn ogystal â chopïau o'r llyfr *Hanes Madagascar* sy'n fargen am £10! Byddan nhw ar gael hefyd mewn digwyddiadau yn ystod misoedd yr haf. Cofiwch fod dau gydlynnydd wedi eu penodi i hyrwyddo'r Apêl, Mererid Mair yn y gogledd a Robin Samuel yn y de. Cysylltwch â nhw er mwyn eu cael i ddog atoch i'r cwrdd chwarter neu i oedfaon arbennig.

Beth sy'n bwysig yw eich bod chi'n bwrw ati cyn gynted â phosibl i drefnu gweithgarwch i godi arian i'r Apêl. Defnyddiwch eich dychymyg a byddwch yn fentrus a chreadigol, a gofalwch eich bod yn tynnu digon o luniau ohonynt ar gyfer y *Tyst!*

Robin Samuel



Cyhoeddi'r gyfrol *Hanes Madagascar* gan David Griffiths yn y Falagaseg oedd cyfrinach fawr y datlu yn Aberaeron eleni – ni wyddai neb, heblaw ambell un, ei bod yn fwriad gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gyhoeddi'r gyfrol ar gyfer pobl Madagascar ac roedd y cynrychiolwyr o Fagagascar oedd yn y datliadau wedi'u syfrdanu pan welsant y llyfr.

Mae'r diolch am y cyfieithiad yn mynd i Miara Rabearisoa, sy'n byw gyda'i deulu ym Mhen-rhys y Rhondda ar hyn o bryd. Bu Miara wrthi am yn agos i flwyddyn yn cyfieithu'r gyfrol i Falagaseg, defnyddiodd addasiad Saesneg Elenid Jones, Caerdydd i wneud hynny. Bu rhai yn Madagascar yn helpu Miara i gael y testun yn barod, yn ogystal ag Eleri Edwards, Manceinion a fu'n genhades ym Madagascar – gallai Eleri ddarllen y Gymraeg gwreiddiol er mwyn gwirio'r Falagaseg.

Dyma gamp aruthrol yn ddi-os.

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Aberaeron 2018

Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn rhoi crynodeb o Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol y Parch. Dr Geraint Tudur gan rannu gyda darllenwyr y Tyst y prif bwyntiau a godwyd ganddo.



2017–18

Mae'n syndod meddwl fod blwyddyn gyfan, ers yr oeddem yn cyfarfod yn Rhydaman ar gyfer Cyfarfodydd Blyneddol 2017; fe wibiodd y misoedd heibio, a hynny oherwydd ei bod wedi bod yn flwyddyn ddifyr a llawn. Mr Llywydd, diolch i chi, ac i holl swyddogion eraill yr Undeb, am eich cefnogaeth yn ystod ei dyddiau. Diolch i chi oll am ymroi i'ch dyletswyddau, a bod yn llysgenhadon mor ardderchog i Undeb yr Annibynwyr.

Gwta wythnos ar ôl i gyfarfodydd Rhydaman ddod i ben, yr oedd tri o'n plith, sef y Dr Noel Davies, y Dr Hefin Jones a Carys Mair Jones, yn teithio i Leipzig i gynhadledd Cymuned Eglwysi Diwygiedig y Byd. Hwn oedd un o'r dathliadau mawr a gynhaliwyd i nodi pumcanmlwyddiant dechrau'r Diwygiad Protestannaidd yn Wittenberg yn nyddiau Martin Luther. Yma yng Nghymru, cynhaliwyd ein dathliad cydeglwysig ni yng Nghaerdydd ar y diwrnod olaf o Hydref, sef y dyddiad y dywedir i Luther osod ei erthyglau enwog ar ddrws Eglwys y Castell yn Wittenberg. Da oedd gweld nifer o Annibynwyr yno, a chynrychiolwyd ni yn y gwasanaeth gan Eurwen Richards, sy'n ymddiriedolwr gyda CYTŪN.

Fel yr oedd Carys a Noel yn troi am adref o'r Almaen, yr oedd dwsin arall ohonom, oedd yn cynnwys Hefin Jones, yn cychwyn i Dde Affrica i gynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd yn Stellenbosch. Nid oeddwn wedi meddwl am funud wrth weld dyddiad y gynhadledd yn nesáu y byddai cymaint yn dod iddi o Gymru, a hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cwmni a'u cyfraniad, ac i'r Undeb am alluogi cynifer i ymgymryd â'r daith. Yn y gynhadledd hon, wrth gwrs, yr oedd fy nhymor fel Llywydd Annibynwyr y Byd yn dod i ben, ac wrth edrych yn ôl dros bedair blynedd fy llywyddiaeth, rhaid i mi roi diolch arbennig i'r Undeb am y gefnogaeth a gefais, ac i Hefin Jones am sefyll gyda mi pan ddaeth yn amser i drefnu'r gynhadledd.

Barchus Lywydd ac annwyl gyfeillion, dyma fi unwaith eto yn sefyll o'ch blaen i gyflwyno f'adroddiad am y flwyddyn sydd wedi mynd heibio. Dyma'r deuddegfed tro i mi wneud hynny, a'r tro olaf oherwydd, fel y gŵyr y rhan fwyaf ohonoch, byddaf yn ymddeol ar ddiwedd mis Medi eleni.

Yn y gorffennol yr wyf wedi bod yn methu deall pam fod rhai pobl sy'n ymddeol yn dod yn ôl i ymddeol eilwaith ac, o dro i dro, y drydedd waith. Erbyn hyn, rwy'n deall yn iawn, oherwydd rhywdro yn ystod mis Chwefror, wrth i mi fynychu pwyllgorau, dechreuodd y cadeiryddion ffarwelio â mi er bod cryn saith mis i fynd eto tan y byddwn yn gadael. F'ymateb ar y pryd oedd tybio eu bod yn orawyddus i gael gwared ohonof, tan i mi sylweddoli mai'r rheswm am y ffarwelio cynnar oedd nad oedd y pwyllgorau hynny yn cyfarfod eto tan ddiwedd y flwyddyn. Beth bynnag am hynny, *natur* y ffarwelio a wnaeth argraff arnaf; roeddent yn dweud pethau caredig amdanaf, a chan mor anghyffredin yw hynny, fe gefais fy nhemtio i newid fy meddwl, peidio ag ymddeol, a gwneud hynny eto'r flwyddyn nesaf i mi gael clywed y pethau neis eto!

Fodd bynnag, nid wyf wedi gwneud hynny nac am wneud hynny, ond yr hyn yr wyf *am* i wneud yw llongyfarch f'olynydd, Dyfrig Rees, ar gael ei ethol i fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol nesaf yr Undeb. Mae'n glod i'r Undeb ac i Annibynwyr Cymru fod yn ein plith o hyd bobl sy'n awyddus i ymuno yn y gwaith ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Yr ydych chi, fel minnau, yn llongyfarch a dymuno'n dda i Dyfrig a Beti-Wyn.

Cenhades Papwa

Bu farw Miss Joan Averil Phillips SRN, SCM ar ddydd Gwener 25 Mai 2018 yn 95 oed. Roedd yng nghartref Nyrsio Spring Bank yn y Barri. Cafwyd gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa'r Barri ar ddydd Mawrth 12 Mehefin.

Roedd tad-cu Joan yn ddiagon yn eglwys y Tabernacl yn y Barri ac ef a gerfiodd y pulpud hardd yn y capel a'i gyflwyno'n rhodd i'r eglwys yn 1913. Neilltuwyd Joan yn genhades a nyrs i Papwa Gini Newydd ar 2 Awst 1950 mewn oedfa yn y Tabernacl. Bu'n genhades yn Papwa am ugain mlynedd.

Roedd yn cadw cysylltiad â'r Tabernacl ac yn mynychu cymun misol yr eglwys yng Nghanolfan Sant Ffransis hyd nes i'w hiechyd fynd yn rhy fregus.

Euryn Ogwen

Pobl y Pentecost: dal ati i bontio gyda'r Gymuned

'Do, carodd Duw y byd gymaint...' (Ioan 3: 16)

Roedd y gymuned leol yn ymwybodol o bresenoldeb yr Eglwys Fore, yn fywiog, yn weithgar ac yn gwasanaethu yn eu plith ac fe glywn yn Actau pennod dau fod 'agwedd pobl tuag atyn nhw yn bositif iawn.' Yr Eglwys yw'r unig gymdeithas o bobl sy'n bodoli er mwyn eraill nid er ei mwyn ei hun. Rhaid iddi felly beidio â bod yn gymdeithas gaedig a mewnblyg ond yn gorff o bobl sy'n edrych allan i'r gymuned gan weld cyfleoedd i ymwneud â phobl a'u gwasanaethu.

Yn y gorffennol roedd cyfran helaeth o bobl yng Nghymru yn mynychu oedfaon ond erbyn hyn, mae angen i ni fynd ati'n fwriadol i greu cyfleoedd i ymwneud gyda'r gymuned o'n cwmpas er mwyn chwalu muriau dieithrwrch a rhagfarn.

Pontio

Mae hi'n hyfryd gweld yr amrywiaeth o ffyrdd y mae'n heglwys yn pontio gyda'r gymuned leol y dyddiau hyn. Mewn rhai ardaloedd mae grwpiau Agor y Llyfr yn creu cyswllt gyda'r ysgolion lleol drwy fynd i mewn yn rheolaidd i ddarllen ac actio stori o'r Beibl. Mae nifer o eglwysi bellach yn cynnal bore goffi 'galw i mewn' neu'n cynnal Cylch Ti a Fi ar gyfer plant bach a'u gofalwyr. Mae nifer wedi dechrau bore sgwrsio i ddsygwyr gael ymarfer eu Cymraeg neu'n cynnal clwb darllen neu gylch gweu.

Mae'r gweithgareddau yma i gyd yn werthfawr ynddyn nhw eu hunain ac yn ffordd o godi pontydd a gwneud cysylltiadau. Maen nhw'n ffordd wych hefyd o ddangos cymaint mae Duw yn caru'r byd a bod Iesu ar gyfer pawb nid dim ond ni.

Trafod

Gwnewch restr o'r ffyrdd mae eich eglwys yn pontio gyda'r gymuned ar hyn o bryd? Cofiwch gynnwys:

- gweithgareddau'r Eglwys fel grŵp*
- gwaith gwirfoddol gan aelodau unigol*
- gweithgareddau grwpiau sy'n defnyddio adeilad eich eglwys*

Meddylwch am un gweithgaredd newydd i greu pont gyda'r gymuned – at bwy fyddai'r gweithgaredd wedi ei anelu? Sut fyddai'n ateb anghenion pobl? Pwy o blith yr aelodau fyddai modd eu gwahodd i helpu?



Golygyddol

Apologia – Pobol Capal

Ers degawdau bu'n ffasiynol gan Gymry di-gred a rhai rhaglenni ar y cyfryngau Cymraeg i ddilorni 'pobol capal'. Yn aml fe'u portreadir fel 'criw Duw' – pobl gul, feirmiadol, hunangyfiawn, rhagrithiol a diserch. Dro arall fe'u cyflwynir fel pobl hen-ffasiwn, pobl o oes yr arth a'r blaidd sy'n anfodlon symud gyda'r amseroedd. Ar rai achlysuron bu hyn yn wir, ond ni ddylid gor-gyffredinol.

Cymdeithas Iesu

O reidrwydd, os yw cynulleidfa o bobl yn credu yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwardwr ac mai nod amgen eu bodolaeth yw Ei garu a'i wasanaethu Ef, y mae'n anochel fod ganddynt flaenoriaethau gwahanol i bobl ddi-gred a dealltwriaeth amgen am fywyd a marwolaeth. A dyma yw 'pobol capal', yn flaenaf, pobl Iesu Grist. Os felly, mae eu byd olwg o reidrwydd yn ymddangos yn wrth-ddiwyllianol, yn enwedig pan fo'r diwylliant hwnnw yn anghrediniol, secwlar a materol.

Asgwrn cefn

Ond hoffwn yma fynd ar ôl edefyn arall sy'n gysylltiedig â hyn. Wrth i anffyddwyr wneud hwyl am ben 'pobol capal' gan eu galw yn amherthnasol a glanna' chwerthin wrth weld eglwysi'n dadfeilio a darfod, y mae rhywbeth arall hefyd ar droed. Nid cyd-ddigwyddiad yw bod cymunedau Cymraeg hefyd yn dadfeilio. Trwy'r canrifoedd, mae'r eglwys Gristnogol o bob traddodiad, yn sgil ffydd y bobl sy'n dod at ei gilydd yn enw Iesu, wedi cynnal cymunedau uniaith Gymraeg a hynny'n gwbl wirfoddol.



Digwyddodd hyn heb yr un geiniog goch y delyn gan lywodraeth, heb grantiau gan Ewrop, na nawdd gan gwmnïau na loteri. Yn rhyfeddol trwy gariad degau o filoedd o unigolion at Iesu a'i Efyngyl a'i haelioni y maent wedi nodd i gwaith Cristnogol,

cyflogi gweinidogion a gweithwyr, adeiladu capeli, cynnal ysgolion Sul, clybiau, cymdeithasau a chorau. Y maent wedi cyhoeddi llenyddiaeth, yn lyfrau, cylchgronau, cerddoriaeth a chaneuon. Buont yn hael tuag at elusennau lleol a byd-eang, Cristnogol a digrefydd. Mewn gwirionedd buont yn asgwrn cefn i'n cenedl a'n cymunedau.

Hoffwn felly dalu'r wrogaeth uchaf i 'pobol capal' a diolch o waelod calon i'r rhai hynny sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y canrifoedd a'r rhai hynny sy'n parhau i wneud hynny heddiw dros waith Iesu Grist yng Nghymru. Nid oes unrhyw beth sy'n bwysicach na hyn.

Pwysigrwydd yr Eglwys

Wrth i'r eglwysi wanychu yn affwysol, mae llawer ohonom yn sylweddoli nad oes unrhyw fudiad arall sy'n gallu gwneud yr hyn y mae'r eglwysi wedi ei wneud ac yn parhau i'w wneud. Oherwydd y maent yn cynnal eu hunain yn gwbl annibynnol ar nawdd allanol, oherwydd eu cariad at yr Arglwydd. Ac ym mhob sir a thref a dinas ac ardal y mae Cristnogion yn parhau i gyfarfod yn ffyddlon gan wneud y cwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai pleidiau gwleidyddol a mudiadau o bob math wrth eu boddau yn cael y fath rwydwaith, ond ni allant greu un cyffelyb heb sôn am ei gynnal.

Argyfwng

Nid yw S4C, Llywodraeth Cymru nac addysg Gymraeg – er mor rhagorol yw eu cyfraniad – yn gallu gwneud yr hyn y mae eglwysi yn ei wneud, sef creu cymunedau cryfion Cymraeg annibynnol a hunangynhaliol. Dylai anffyddwyr sylweddoli hyn ac ymatal rhag gwawdio pobl Iesu Grist (pobol capal) neu anwybyddu eu cyfraniad amhrisiadwy. Oherwydd y mae argyfwng yr eglwysi, yr argyfwng ysbrydol presennol, hefyd yn argyfwng yn ein cymunedau Cymraeg. Bellach nid yw pobl yn ymgynnull a chymdeithasu fel y buont. Un peth yw mynd i'r pŷb yn achlysurol, neu i gig yn fisol i gynnal rhywbeth yn Gymraeg. Peth pur wahanol yw bod yn rhan o gymuned Gristnogol sydd wedi cyfodi â'i gilydd yng nghariad Duw ac sy'n cyfarfod yn wythnosol, i addoli a chyhoeddi'r newyddion da am Iesu Grist a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hoffwn wahodd y rhai hynny sydd wedi cefnu ar Iesu, a'r rhai hynny sydd erioed wedi ystyried Cristnogaeth o ddifrif i ymuno gyda ni ac i ddod yn un o 'bobol capal', pobl Iesu.

Heddiw, rwyf yn twtsiad fy nghap gyda balchder i 'bobol capal'. Diolch i Dduw amdanoch a daliwch ati yn nerth yr Ysbyrd.

Alun Tudur

Carcharu plant

Yn ystod yr wythnos hon daeth adroddiadau erchyll o'r Unol Daleithiau fod yr awdurdodau yno yn camdrin plant mewn fudwyr trwy eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u carcharu. Dywedai rhai adroddiadau na fyddai'r plant byth yn gweld eu rhieni eto. Y mae hwn yn bolisi gwarthus sy'n cael ei weithredu er mwyn darbwyllo pobl sy'n ceisio cael mynediad i'r wlad yn anghyfreithlon.



Llun: gwefan newyddion y BBC

Dieflig

Y mae polisi fel hyn yn ddieflig, anfoesol ac yn gyfangwbl annerbyniol. Ni ddylai unrhyw genedl na chymdeithas gamdrin plant mewn unrhyw ffordd, na'u defnyddio er budd safbwyntiau gwleidyddol. Cyfrifoldeb gwladwriaethau yw amddiffyn a gwarchod plant i'r eithaf. Pan fo camdrin yn digwydd y mae'n amlwg fod y llywodraeth sydd mewn grym wedi colli ei ffordd yn llwyr ac yn cael ei harwain gan bobl anaddas i fod yn wladweinyr. Fel Cristnogion rhaid condemnio y gwleidyddion ar awdurdodau yn yr Unol Daleithau yn llwyr ac yn gyfangwbl.

Y plant

Dangosodd Iesu yn glir ein bod i edrych ar ôl plant gyda pharch ac urddas neilltuol:

Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, "Yn wir, rwy'n dweud wrthynt, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i.

'Ond pwy bynnag sy'n achos cwmp i un o'r rhai bychain hyn sy'n credu yn ofi, byddai'n well iddo pe crogid maen melin mawr am ei wddf a'i fodd i yn eigion y môr.' (Mat 18:2-6)



O archif Sain Ffagan. Dosbarth ysgol Sul capel Nazareth, Talybont, Sir Aberteifi ar ddechrau'r 20fed ganrif. Y pump aelod dros eu 80 oed a'r athro, William Edwards, dros ei 90.

O'r chwith: Margaret Morgan (Gwynfa, ganwyd 23/3/1813), Rebecca Jones (Tal-y-bont, ganwyd 7/2/1826), Anne Williams (Tŷ'r Capel, ganwyd 12/6/1812), William Edwards (Bryngriffy, athro, ganwyd 24/1/1810), Catherine Evans (Tal-y-bont, ganwyd 8/2/1820), Elizabeth Jones (Maesnewydd, ganwyd 8/8/1823)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Cymundeb Eglwys Diwygiedig y Byd - Corea

Dyma ran gyntaf adroddiad gan Dr Hefin Jones am gyfarfod arbennig a gynhaliwyd yng Nghorea ym mis Mehefin.

Anrhydedd go fawr oedd cael fy ethol yng Nghyngor Cyffredinol Cymundeb Eglwys Diwygiedig y Byd (WCRC), 'nôl ym Mis Mehefin 2017, i fod yn aelod o Bwyllgor Gweinyddol y Cymundeb dros y saith mlynedd nesaf. Rwy'n hynod ddiolchgar i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am fy enwebu, ac i Eglwys yr Alban, Eglwys Bresbyteriaid yr Iwerddon a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig am gefnogi'r enwebiad. Ers hynny mynychais gyfarfodydd Adran Cenhadaeth Eglwys yr Alban yn Glasgow, a chyfarfod Grŵp Cynrychiolwyr Eglwys Ewropeaidd y Cymundeb yn Budapest. Amheuthun yw cael cyfarfod a thrafod y Ffydd gyda chyd Gristnogion o'r un traddodiad. Ym mhob cyfarfod o'r fath ceisiaf sicrhau bod ein llais fel Undeb yr Annibynwyr i'w glywed. Heb unrhyw amheuaeth, cynllun hyfforddi Y Ffordd sydd wedi denu'r diddordeb mwyaf a mentraf nodi bod yna beth eiddgedd ymysg enwadau ac undebau eraill o'r hyn y mae'r Undeb wedi llwyddo i'w wneud. Ymfalchiwn ac ymrown i'w ddatblygu'n ymhellach!

Seoul

Cyfarfu'r Pwyllgor Gweinyddol yn Seoul, prif ddinas De Corea, yn ystod mis Mai. Gwyddom am y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf yn y trafodaethau rhwng De a Gogledd Corea, a phrofiad unigryw oedd bod yn y penrhyn yn ystod y cyfnod arbennig hwn. Roedd y cyffro a'r gobath yn heintus – fel Pwyllgor Gweinyddol y Cymundeb cawsom gyfle i gyfarfod nifer o arweinwyr, ysbrydol a gwleidyddol, a thrafod, yn aml trwy gyfieithwyr, yr hyn sydd yn digwydd. Roedd pob un ohonom



o'r fam bod rhywbeth anarferol yn cymryd lle. Do, bu'r ddwy wlad yn y man hwn o'r blaen – y tro hwn, mae pawb yn credu bod pethau'n wahanol. Amser a ddengys, ond roedd yr ymdeimlad o obaith a ffydd yn ddirnadadwy, yn arbennig felly pan fu i ni fel Pwyllgor ymuno yn yr Oedfa Weddi yn Eglwys Han Shin cyn dechrau ein trafodaethau. Un o eglwys 'mega' Corea yw Eglwys Han Shin, gyda bron 3,500 o aelodau. Dim ond rhyw 500 sy'n mynychu cyfarfodydd gweddi fel arfer, mae'n debyg, ond y noson honno roedd hefyd dau gôr o aelodau'r eglwys a cherddorfa'r eglwys (gyda dwy delyn) wedi ymuno ac, o ganlyniad, roedd rhyw 200 ychwanegol yn bresennol! Dros y Sul ymunais mewn oedfa yn un o eglwys 'bach' Seoul; dim ond 1,200 o aelodau sydd iddi. Cefais groeso cynnes a brwdfrydig yn y ddwy eglwys a chyfle i ddwyn cyfarchion Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn Gymraeg.

Datblygiadau

O ran trafodaethau buom yn gweithio ar ddatblygu strategaeth i'n gwaith fel Pwyllgor Gweinyddol dros y blynyddoedd nesaf. Er bod eglwys Ewrop a Gogledd America, i raddau helaeth o leiaf, wedi symud ymlaen â'u trafodaethau am ordeinio gwragedd a chyfunrywiaeth, hawdd anghofio nad felly yw ar draws y byd. Un o'r sgysiau a agorodd fy llygaid

fwyaf oedd honno gyda chyd-aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol, Veronica Muchiri o Eglwys Bresbyteriaid Dwyrain Affrica. Bu'n frwydr hir ac anodd i ferched ennill eu lle yn rhengoedd eglwys y rhan hon o'r byd; yn llawn emosiwn y clywais oddi wrthi am y ferch gyntaf yn cael eidd hordeinio yn Nwyrain Affrica ddechrau'r flwyddyn. Bu ymfudwyr yn bwnc trafod hefyd. Mae Rhanbarth Ewrop o'r Cymundeb wedi rhoi cryn sylw i hyn dros y misoedd diwethaf ac yr oeddwn eisoes wedi medru sôn am waith Eglwys y Priordy yng Nghaerfyrddin, ac Eglwys Ebeneser a Minny Street yng Nghaerdydd, yn ystod y cyfarfod yn Bwdapest. Y tro hwn, cefais gyfle i sôn yn benodol am ffoaduriaid amgylcheddol - brodyr a chwiorydd a fydd yn cael eu gorfodi i symud o'u cartrefi yn sgil llifogydd a newid hinsawdd. Fel Annibynwyr gwyddom trwy'r Cyngor Cenhadaeth Byd-eang (CWM) am yr hyn sydd eisoes yn digwydd i gartrefi a thiroedd ein cydgristnogion ar ynysoedd Tuvalu a Kiribati yn y Môr Tawel.

Hefin Jones



Sul Sbesial 2018
 Ysgol Bro Dinefwr
 Ffairfach, Llandeilo SA19 6PE
8 GORFFENNAF 10.30

Y MÔR

Parohg Derek Rees
 Band Cyfoes
 Ysgol Sul Llanddarog
 Fan byrgyrs a hufen ia
 Nifer o stondinau amrywiol
 Te, coffi a diod am ddim
 Casgliad at Water Aid

CROESO CYNNES IAWN I BAWB
 Trefnir gan Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid Sir Gâr